

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Hysbysiad Preifatrwydd GDPR Disgyblion



Crëwyd gan y Sir / Devised by County: **Mai / May 2018**

Statws Polisi / *Policy Status*: **Statudol / Statutory**

Cytunwyd gan y Llywodraethwyr / *Agreed by the Governors*:

Cadeirydd y Llywodraethwr / *Chair of Governors*:

Dyddiad / *Date*:

Y cynllun i gael ei adolygu / *Policy to be revised* : **Ebrill / April 2021**

Hysbysiad Preifatrwydd i Ddisgyblion

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio pam mae angen eich gwybodaeth arnom a beth rydym yn ei wneud ag ef.

Cyfraith newydd

Mae rheolau ynglŷn â sut i gadw gwybodaeth yn ddiogel a sut mae'n cael ei rannu. Mae'r rheolau hyn yn **Y Ddeddf Diogelu Data 1998**.

Ym Mai 2018, mae deddf newydd o'r enw **Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**. Mae'n rhoi mwy o reolaeth ichi dros eich gwybodaeth. Mae'n sicrhau bod yn rhaid i unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth:

- Fod yn onest ynghylch pam maen nhw am ei gael
- Bod yn glir ynghylch yr hyn y byddant yn ei wneud ag ef

Pa wybodaeth rydym yn ei gasglu amdanoch?

Mae'r wybodaeth rydym yn ei gasglu amdanoch yn cynnwys:

- Manylion personol, fel eich enw, eich cyfeiriad a'ch dyddiad geni
- Gwybodaeth arall amdanoch fel ble cawsoch eich geni, beth yw eich crefydd a pha ieithoedd rydych chi'n eu siarad
- Enwau a rhifau cyswllt eich rhieni neu unrhyw un sy'n gofalu amdanoch chi ac o bosibl aelodau'r teulu a ffrindiau agos eraill
- Manylion eich iechyd, fel unrhyw beth na allwch chi ei wneud ac unrhyw fwyd na ddylech ei fwyta oherwydd gallent eich gwneud yn sâl
- Gwybodaeth am unrhyw anabledd sydd gennych
- Pa ysgolion rydych chi'n mynd i neu a fuoch iddynt gynt
- P'un a oes angen cymorth ychwanegol arnoch gyda'ch dysgu
- P'un ai a ydych chi'n cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol neu sefydliadau eraill
- Manylion eich presenoldeb yn yr ysgol a'r hyn a wnaethpwyd i'ch helpu os oes gennych unrhyw broblemau wrth fynd i'r ysgol
- Gwybodaeth am sut rydych chi'n ei wneud gyda'ch dysgu a'ch gwersi, gan gynnwys canlyniadau eich profion neu arholiadau ysgol

- P'un a ydych chi wedi cael neu wrthi'n cael unrhyw faterion neu broblemau yn yr ysgol, fel cael eich gwahardd o'r ysgol, a'r hynny a wnaethpwyd i'ch helpu a'ch cefnogi
- Gwybodaeth am eich prydau ysgol, fel p'un a ydych chi'n cael pecyn bwyd neu bryd bwyd ysgol
- Ffotograffau a fideos ohonoch chi

Mae'r holl wybodaeth hon yn ein helpu ni i'ch adnabod chi.

Mae yna reolau sy'n golygu ei bod yn angenrheidiol i ni gasglu'r rhan fwyaf o wybodaeth amdanoch chi. Fodd bynnag, mae yna rywfaint o wybodaeth rydym yn gofyn i chi nad oes raid i chi. **Byddwn yn dweud wrthy'ch os oes raid i chi roi gwybodaeth i ni neu os oes gennych chi ddewis p'un ai i roi'r wybodaeth i ni neu ddim.**

Beth rydym yn ei wneud â'ch gwybodaeth?

[Rydym yn defnyddio'ch wybodaeth](#) i ddarparu'r pethau sydd eu hangen arnoch:

- I gefnogi'ch dysgu
- I wirio sut rydych chi'n ei wneud gyda'ch dysgu a rhoi gwybodaeth i chi a'ch rhieni/gofalwyr
- I gefnogi'ch iechyd a lles yn yr ysgol

Rydym hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth:

- Er mwyn ein helpu i wneud y gorau i'r holl ddisgyblion
- I wneud yn siŵr ein bod yn dilyn y gyfraith

[Rydym yn cadw'ch gwybodaeth](#) nes i chi gyrraedd eich pen-blwydd yn 25 oed.

[Rydym yn rhannu'ch gwybodaeth](#) pan fo hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu os oes angen

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau a restrir yn y gyfraith. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- Unrhyw ysgol newydd rydych chi'n mynd iddi, fel bod yr ysgol honno'n gallu dod i'ch adnabod chi a beth sydd ei angen arnoch chi
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal i sicrhau eich bod yn iach a diogel
- Gyfa Cymru, er mwyn i chi gael yr hyfforddiant iawn ar gyfer gwaith
- Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Consortiwm Canolbarth y De a sefydliadau eraill, i wirio ein bod yn gwneud y gorau posibl ar

gyfer ein disgyblion.

Nid ydym yn rhannu'ch gwybodaeth gydag unrhyw un heb ichi gytuno y gallwn ni wneud hynny, oni bai fod y gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny.

Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i:

- Weld unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi
- Gofyn i ni newid unrhyw wybodaeth yr ydych yn meddwl sy'n anghywir
- Gofyn i ni beidio â rhannu eich gwybodaeth, ond ni fydd hyn yn berthnasol pan fydd angen i ni gael cefnogaeth i'r disgybl neu gadw'r disgybl yn ddiogel
- Gofyn i ni gael gwared ar wybodaeth o'n systemau

I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol, neu i gael mynediad at eich cofnod addysgol, siaradwch â'r ysgol.

Gallwch gwyno os ydych yn teimlo nad ydym yn parchu'ch hawliau.

Gallwch ofyn am gymorth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Y manylion cyswllt yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: **01625 545 745** neu **0303 123 1113**

www.ico.gov.uk